**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, TAI AC ASEDAU**
**27 MEDI 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mawrth, 27 Medi 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Pam Banks, Gillian Brockley, Rosetta Dolphin, David Evans, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Dale Selvester a Linda Thew

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Tina Claydon

**DIRPRWYON:** Cynghorydd Ted Palmer (ar ran y Cynghorydd Kevin Rush)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y Cynghorydd Marion Bateman yn bresennol fel arsylwr.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet ar gyfer Tai ac Adfywio); Y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet ar gyfer Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol gan gynnwys Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol); Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Tai a Chymunedau); Rheolwr Rhaglenni Tai; Rheolwr Gwasanaeth- Asedau Tai; Rheolwr Gwasanaeth - Rheoli Tai, Gwasanaeth Budd-daliadau
gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau Anabl a Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol

**14. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

**15. COFNODION**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 eu cymeradwyo fel cofnod cywir, a'u cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin a'r Cynghorydd David Evans.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**16. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol cyfredol i gael ei ystyried, gan amlinellu'r diwygiadau arfaethedig canlynol:-

- Bod yr adroddiad ar Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru yn cael ei symud yn ôl cylchred ac yn cael ei adrodd yn y cyfarfod ar 16 Tachwedd;
- Bod diweddariad ar y System Cofrestru Adnoddau Deinamig yn cael ei symud o gyfarfod 16 Tachwedd i gyfarfod ar 8 Mawrth 2023; a

- Bod adroddiad ar gyllideb 2023-24, yn dilyn sesiynau briffio cyllideb portffolio'r Aelod, yn cael ei ychwanegu i gael ei ystyried yng nghyfarfod ar 16 Tachwedd 2022.

Dywedodd yr Hwylusydd bod y Cadeirydd wedi gofyn i bob Aelod o'r Cyngor os oedd ganddynt eitemau yr oeddynt yn teimlo y dylai'r Pwyllgor ei ystyried ac ychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Mae rhestr o eitemau awgrymedig wedi'i greu ac roedd y rhain i'w gweld yn Atodiad 3. Dywedodd yr Hwylusydd, yn dilyn y cyfarfod, y byddai'n cysylltu â'r swyddogion a'r Cadeirydd i nodi sut y gellir eu cynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Cafodd yr argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin a'r Cynghorydd David Evans.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 17. RHAGLEN TAI AC ADFYWIO STRATEGOL (SHARP)

Cyflwynodd Rheolwr Rhaglenni Tai'r adroddiad i hysbysu'r Pwyllgor o gynnydd y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) ac i osod y Strategaeth ar gyfer tai newydd fforddiadwy o fewn y pum mlynedd nesaf.

Rhoddodd y Rheolwr Rhaglen Tai ddiweddariadau manwl ar y cynnydd dan bartneriaeth fframwaith caffael Cymru newydd a hefyd y gweithgor di-garbon net, ac amlygu'r newidiadau ym mlaenoriaethau adeiladu newydd Llywodraeth Cymru, rhaglen cyllido newydd a'i oblygiadau i Sir y Fflint a NEW Homes, fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin, dywedodd y Rheolwr Rhaglenni Tai ei fod yn ymwybodol o brosiect ym Maes Glas ac yn bwriadu ychwanegu hwn i'r SHARP.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Rosetta Dolphin ar ymgynghoriad ag Aelodau lleol a'r anghenion o ran tai o fewn wardiau, sicrhaodd y Rheolwr Rhaglenni Tai'r Pwyllgor bod Aelodau lleol, ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd yn cael eu hymgynghori ar unrhyw brosiectau yn y dyfodol. Dywedodd hefyd bod angen llunio portffolio ar anghenion adeiladau ar draws y Sir i gael safbwynt cyffredinol o beth mae angen i'r strategaeth sydd ei angen. Dywedodd wrth yr Aelodau y byddai'r Cyngor yn gallu dylanwadu ar yr hyn sydd ei angen.

Cafodd yr argymhellion, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd David Evans a'r Cynghorydd Rosetta Dolphin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r cynnydd yn y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) hyd yma;

(b) Nodi'r newidiadau i gyllid Llywodraeth Cymru i dai cymdeithasol;

(c) Nodi'r newidiadau i feini prawf ar gyfer cofrestru gyda Thai Teg ar gyfer tai rhent fforddiadwy;

(d) Nodi rhaglen datblygu amlinellol SHARP 2; a

(e) Bod y Pwyllgor yn cefnogi ailddyrannu cyllideb o £121,000 ar gyfer ymchwiliad cynllun a gwaith dichonoldeb i gefnogi llwybrau cyflenwi newydd.

**18. RHEOLI GWAGLE**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth - Asedau Tai adroddiad i ddarparu diweddariad ar reoli unedau gwag a chyflawniad.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth - Asedau Tai a Rheolwr Gwasanaeth - Rheoli Tai, Gwasanaethau Budd-daliadau gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl gyflwyniad a oedd yn cynnwys y meysydd canlynol:-

- Cartrefi Gwag
- Targedau a chostau cartrefi gwag
- Trosiant ac ôl-groniad cartrefi gwag
- Rheoli Ystadau
- Proses diwedd i ddiwedd
- Adnoddau - Staffio
- Adnoddau - gweithgareddau gwella staffio
- Adnoddau - cyllidebau
- Adnoddau - gweithgareddau gwella cyllideb
- Adnoddau - ailwampio
- Adnoddau - gweithgareddau gwella ailwampio
- Trosolwg ac Adrodd

Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Rosetta Dolphin, cytunwyd y byddai copi o'r cyflwyniadau yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod. Hefyd rhoddodd y Cynghorydd Dolphin enghreifftiau i eiddo gwag yn ei ward a oedd wedi bod yn wag ers cyfnod hir iawn, a rhoddodd sylw ar yr angen i newid eiddo yn gynt i sicrhau refeniw parhaus i'r Cyngor.

Mewn ymateb i bryderon gan y Cynghorydd Pam Banks ynghylch mater yn ei ward ac arhosiad am eiddo, gofynnodd y Rheolwr Gwasanaeth - Rheoli Tai, Gwasanaethu Budd-daliadau gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i'r Cynghorydd Banks ddarparu manylion iddi ar ôl y cyfarfod fel y gellir edrych ar y mater hwn ymhellach.

Gofynnodd y Cynghorydd Ted Palmer os oedd yno gontractwyr mewnol ychwanegol y gellir eu defnyddio. Hefyd gofynnodd sut y gellir gwella cyfraddau ynni i'r eiddo hyn a oedd wedi'u dyrannu'n barod. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Asedau Tai bod timau eiddo gwag mewnol a oedd yn cael eu dyrannu i gyflawni mân waith. Hefyd darparodd fanylion am brosiect peilot ynghylch di-garboneiddio'r stoc dai ym Mostyn, ac ychwanegodd bod y gwaith hwn wedi'i gynnwys o fewn gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru.

Awgrymodd y Cynghorydd Dave Evans bod y Pwyllgor yn ymweld ag eiddo gwag pan mae'n dod yn wag, a hefyd eiddo gwag sydd wedi'i ailwampio'n ôl i ddefnydd er mwyn gweld safon y gwaith a gyflawnir. Hefyd cyfeiriodd at yr argyfwng costau byw a gofynnodd pa welliannau a gafodd eu gwneud i eiddo i gadw costau'n îs i denantiaid. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Asedau Tai bod yr holl foeleri, gwresogi a insiwleiddiad atig yn cael eu hasesu'n dda ar y cam gwag, ac ychwanegodd os byddai newid i bympiau gwres yr awyr yn opsiwn hyfyw i'r eiddo, yna byddai hynny yn cael ei asesu ar adeg pan mae'r eiddo'n wag hefyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin os oedd myfyrwyr coleg yn cael eu cyflogi i gynorthwyo i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Asedau Tai bod y Cyngor wedi cysylltu gyda'r coleg ac yn hwyluso myfyrwyr sydd yn cyflawni gwaith ymarferol fel rhan o'u cwrs.

Cododd y Cynghorydd Dale Selvester bryderon ynghylch yr amser mae'n cymryd i gofrestru mesuryddion gyda chwmniau ynni, a oedd yn ychwanegu at yr oedi i ddyrannu eiddo gwag. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth - Asedau Tai bod y tenant yn flaenorol yn gorfod cysylltu gyda'r cwmniau ynni yn uniongyrchol a oedd yn cymryd llawer iawn o amser. Bellach bydd cwmni o'r enw Energy Angels yn eu cynorthwyo gyda hyn.

Cafodd yr argymhellion, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd David Evans a'r Cynghorydd Dale Selveseter.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r pwysau a heriau cynyddol sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth ar draws y Portffolio Tai a Chymunedau; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynigion ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd.

## 19. <u>AIL-GARTREFU CYFLYM</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd gyda datblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym. Roedd gofyn bod Awdurdodau Lleol yn datblygu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym i ddangos sut y bydden nhw'n symud dull newydd ymlaen i atal ac i liniaru digartrefedd.

Nododd yr adroddiad bod blaenoriaethau lefel uchel wedi eu cynnwys o fewn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym, ac roedd cynllun gweithredu drafft y byddai Cyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid ei angen ei ddarparu i gyflawni

trawsnewid mewn ataliad digartrefedd a gwasanaeth digartrefedd statudol, a dechrau pontio i Ailgartrefi Cyflym.

Darparodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal gwybodaeth fanwl ar yr Egwyddorion Allweddol, fel a ganlyn:-

1. Mynd i'r afael â Digartrefedd drwy bartneriaeth gadarn ac effeithiol.
2. Ailfodelu ein dulliau o ran data, systemau, polisiau a darpariaeth gwasanaeth.
3. Sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bawb sydd ei angen.
4. Trawsnewid ein cynnig tai dros dro
5. Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a chael gwared ar rwystrau i bobl sydd eisiau mynediad at dai fforddiadwy ar unwaith.

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal bod adroddiad ar y Cynllun Gweithredu, Heriau a Blaenoriaethau penodol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2022.

Gofynnodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin am wybodaeth ar ddemograffeg pobl sy'n nodi eu bod yn ddigartref. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal bod y mwyafrif o bobl yn sengl, a oedd yn amlygu'r galw o'r angen am lety un person yn y Sir.

Rhoddodd y Cynghorydd Pam Banks sylw ar bobl yn cael eu cartrefu mewn pentrefi gwledig, a theimlodd bod diffyg cymorth/ cefnogaeth yn y gymuned. Gofynnodd a oedd eu hanghenion yn cael eu hasesu cyn cael eu cartrefu. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal o ran llety mewn argyfwng, bod tai yn brin ond ychwanegodd bodd yr holl anghenion yn cael eu hasesu gyda chynlluniau gweithredu personol yn cael eu llunio'n unol â hynny.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ei gynnig gan Gynghorydd David Evans a'i eilio gan y Cynghorydd Ted Palmer.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad a'r egwyddorion o Ailgartrefi Cyflym.

## 20. GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth - Rheoli Tai, Gwasanaethau Budd-daliadau gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ) adroddiad i ddiweddaru ar Bolisi Dewisol a newidiadau a wnaethpwyd yn y 12 mis diwethaf.

Amlygodd y Rheolwr Gwasanaeth y ddau brif newidiadau o fewn y Polisi, a oedd fel a ganlyn:

1. Mae gwerth profi modd wedi'i adolygu ac wedi cynyddu o £10,000 i £20,000; a'r

2. Angen i wneud cais am fridiant tir wedi'i dynnu. Os byddai eiddo wedi'i addasu yn cael ei werthu o fewn 5- 10 mlynedd o'r addasiadau, yna

byddai'r Cyngor yn edrych i adennill y costau i ddarparu diogelwch a sicrwydd i'r pwrs cyhoeddus.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd David Evans ynghylch adennill costau, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth bod hwn yn ddigwyddiad prin.

Gofynnodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson os oedd eiddo a osodwyd mewn eiddo yn gallu cael eu hailgylchu a'u hailddefnyddio pan maent yn cael eu symud. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth bod system ailgylchu effeithiol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarpar, a bod pob cyfarpar yn cael eu profi cyn cael eu hailosod mewn eiddo arall. Ychwanegodd bod y cyfarpar hefyd yn cael eu gosod gyda gwarant pum mlynedd.

Cafodd yr argymhellion, a amlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd David Evans a'r Cynghorydd Rosetta Dolphins.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Polisi Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl diweddar yn cael ei gefnogi a bod y gwaith parhaus i wella'r gwasanaeth yn cael ei nodi;

(b) Bod y diwygiad, a nodir yn Atodiad 2 y Polisi, ar gyfer cael gwared â phrawf modd i addasiadau maint canolig yn cael eu nodi; a

(c) Bod y newidiadau i Bridiannau Tir yn unol â Safonau Tai Diwygiedig Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, yn cael eu nodi.

## 21. ADOLYGU AMSERLEN CYNLLUN Y CYNGOR 2022/23

Cyflwynodd Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r adroddiad ar adolygu'r amserlenni ar gyfer Cynllun y Cyngor 2022-23 yn unol â chais y Cyngor Sir ym mis Gorffennaf.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod yr amserlen yn ymwneud â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2022-23 sy'n cynnwys dwyn rhai eitemau ymlaen y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw. Roedd swyddogion yn canolbwyntio ar ddatblygu Cynllun pum mlynedd y Cyngor ar hyn o bryd a fyddai'n cynnwys rhagor o fanylion penodol mewn perthynas â defnyddio Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i nodi pynciau ar gyfer eu Rhaglenni Gwaith i'r Dyfodol.

Cafodd yr argymhelliad, a amlinellwyd yn yr adroddiad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd David Evans a'r Cynghorydd Ted Palmer.

**PENDERFYNWYD:**

I gytuno ar Ran 1 Cynllun y Cyngor yn cael ei adolygu a diweddaru amserlenni i gwblhau.

## 22. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.05 pm)

..................................................

**Y Cadeirydd**